# Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**2008 mccc 1**

**7 Cyngor cyfreithiol, etc.**

(1) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) a (4), caiff y rheoliadau wneud y ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn addas—

(a) ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol di-dâl i unigolion sy'n ceisio iawn o dan y rheoliadau;

(b) ar gyfer darparu gwasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau arbenigwyr meddygol, mewn cysylltiad â chais am iawn o dan y rheoliadau.

(2) Rhaid i'r rheoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol er mwyn sicrhau bod unigolion y caniateir gwneud cynnig o iawn iddynt o dan y rheoliadau yn cael ymofyn am gyngor cyfreithiol yn ddi-dâl mewn perthynas ag—

(a) unrhyw gynnig a wneir,

(b) unrhyw wrthodiad i wneud y cyfryw gynnig; ac

(c) unrhyw gytundeb setlo.

(3) Caiff darpariaeth o dan is-adran (1)(a) neu (2) ynghylch pwy a gaiff ddarparu'r cyngor cyfreithiol gael ei gweithredu drwy gyfeirio at restr sy'n cynnwys darparwyr posibl ac a lunnir gan berson neu gorff penodedig.

(4) Os yw'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau arbenigwyr meddygol, rhaid iddynt ddarparu hefyd bod yr arbenigwyr hynny yn cael eu cyfarwyddo ar y cyd gan y corff neu'r person sy'n gweithredu'r trefniadau iawn o dan y rheoliadau a chan yr unigolyn sy'n ceisio iawn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 14(3)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 7.2.2011 gan O.S. 2011/211, ergl. 2, **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2011.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Adran 7.